# WYTHNOS DIOGELU GENEDLAETHOL 2025




# ARFERION CADARNHAOL WRTH DDIOGELU



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council



PECYN I GYNRYCHIOLWYR Y GYNHADLEDD

13.11.2025

09:00—16:30

BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# Cyflwyniad

**Rydym yn falch o'ch croesawu i ddigwyddiad blaenllaw eleni, a gynhelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, fel rhan o raglen Wythnos Diogelu Genedlaethol 2025.**

**Mae'r gynhadledd flynyddol sefydledig hon yn dod â gweithwyr proffesiynol, ymarferwyr a phartneriaid o bob cwr o'r rhanbarth a thu hwnt ynghyd. Mae thema 2025, Arferion Cadarnhaol mewn Diogelu, yn tynnu sylw at ddulliau effeithiol a dulliau arloesol mewn arferion diogelu ar draws pob sector.**

**Yn ogystal â'r brif thema, mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys cyfraniadau sy'n cynnig persbectif profiad byw mewn perthynas â hunanladdiad, gan ddarparu mewnwelediad a myfyrdodau gwerthfawr.**

**Rydym yn falch iawn o gefnogi a chyflwyno'r digwyddiad hwn, sy'n cynnwys cyfres o brif gyflwyniadau a draddodir gan siaradwyr gwadd yn y bore, ac yna gweithdai rhyngweithiol yn y prynhawn.**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council



**Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r gynhadledd ac y gallwch ddysgu rhai negeseuon allweddol a themâu ymarferol i'w rhannu gyda'ch timau ar y pwnc pwysig iawn hwn.**

**Am ragor o wybodaeth am raglen yr wythnos ac adnoddau sy'n gysylltiedig ag Wythnos Diogelu Genedlaethol 2025, ewch i wefan Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru.**

# Cyflwyniadau

| Adolygiad Southport | Deallusrwydd Artiffisial mewn Diogelu | Y Newid Mwyaf Arwyddocaol | Bregusrwydd mewn Niwrowahaniaeth |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| **Tony Jenkyn** | **Catherine Evans** | **Nick Andrews** | **Donna Sharland** |
| Adolygydd Annibynnol o Adolygiad Dysgu Prevent ar ôl Southport | Uwch Reolwr, Rheoli Prosiectau a Dadansoddeg Data, Sir Gaerfyrddin | Gweithiwr Cymdeithasol, Swyddog Datblygu Ymchwil ac Ymarfer, Prifysgol Abertawe | Arbenigwr Niwroamrywiaeth, Rheolwr Gyfarwyddwr Addysg ac Ymgynghoriaeth AutSiDe |



# Cyflwynydd a Gweithdai

## Cyflwynydd : Kiri Pritchard-McLean

Mae Kiri Pritchard-McLean yn ddigrifwraig, yn un o sêr y sgrin fach ac yn ofalwr maeth seibiant sydd wedi gofalu am ffoaduriaid ifanc, gan gynnwys ffoaduriaid o Syria. Mae hi'n ddigrifwraig, yn ddychanwraig ac yn awdures adnabyddus o Gymru.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council



| | |
|---|---|
| **Gweithdy 1:** | **Atgyfeiriadau Prevent** |
| Cyflwynydd: | Tony Jenkyn |
| **Gweithdy 2:** | **Y Newid Mwyaf Arwyddocaol** |
| Cyflwynydd: | Nick Andrews |
| **Gweithdy 3:** | **Profiad Byw, Ôl-gyflawni** |
| Cyflwynwyr: | Ana Reis-Rogers / Lisa Hammett |

**Wythnos Ddiogelu Genedlaethol Cynhadledd y Bwrdd Diogelu**

**Amser:** 9.45am (cofrestru o 9am)

**Dyddiad:** Dydd Iau 13 Tachwedd 2025

**Lleoliad:** SC4 Yr Egin, Heol y Coleg, Caerfyrddin

| Amser | Digwyddiad | Siaradwr: | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| **09:00** | **Registration and coffee/tea** | | **Atrium/Foyer** |
| 9.45am | Sylwadau Agoriadol | **Michael Gray** (Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol) a **Kiri Pritchard-McLean** | Prif Awditoriwm |
| 10am | Adolygiad Southport | **Tony Jenkyn** - Adolygydd Annibynnol Ymosodiadau Southport | Prif Awditoriwm |
| 10.45am | **Deallusrwydd Artiffisial** mewn Diogelu | **Cath Evans** - Uwch Reolwr, Rheoli Prosiectau a Dadansoddeg Data | Prif Awditoriwm |
| **11.05am** | **Egwyl** | **Lluniaeth yn yr Atriwm (Y Galon)** | |
| 11.20am | Y Newid Mwyaf Arwyddocaol | **Nick Andrews**<br>Swyddog Ymchwil a Datblygu Ymarfer Prifysgol Abertawe | Prif Awditoriwm |
| 12pm | Bregusrwydd mewn Niwrowahaniaeth | **Donna Sharland** - Rheolwr Gyfarwyddwr Addysg ac Ymgynghoriaeth AutSiDe | Prif Awditoriwm |
| **12.45pm** | **Cinio** | **Prif Awditoriwm** | |
| 1.45pm | Croeso yn ôl a chyfarwyddiadau ar gyfer gweithdai | **Kiri Pritchard-McLean** | Prif Awditoriwm |
| **2pm** | **Gweithdai rownd 1 (30 munud)** | | |
| | **Gweithdy 1:**<br>Atgyfeiriadau Prevent | **Tony Jenkyn** | |
| | **Gweithdy 2:**<br>Y Newid Mwyaf Arwyddocaol | **Nick Andrews** | |
| | **Gweithdy 3:**<br>Profiad Byw, Ôl-gyflawni | **Ana Reis-Rogers /Lisa Hammett** | |
| **2.35pm** | **Gweithdai rownd 2 (30 munud)** | | |
| | **Gweithdy 1:**<br>Atgyfeiriadau Prevent | **Tony Jenkyn** | |
| | **Gweithdy 2:**<br>Y Newid Mwyaf Arwyddocaol | **Nick Andrews** | |
| | **Gweithdy 3:**<br>Profiad Byw, Ôl-gyflawni | **Ana Reis-Rogers /Lisa Hammett** | |
| **3.05pm** | **Egwyl** | **Lluniaeth yn yr Atriwm (Y Galon)** | |
| **3.20pm** | **Gweithdai rownd 3 (30 munud)** | | |
| | **Gweithdy 1:**<br>Atgyfeiriadau Prevent | **Tony Jenkyn** | |
| | **Gweithdy 2:**<br>Y Newid Mwyaf Arwyddocaol | **Nick Andrews** | |
| | **Gweithdy 3:**<br>Profiad Byw, Ôl-gyflawni | **Ana Reis-Rogers /Lisa Hammett** | |
| 3.55pm | **Cyfarfod llawn**<br>**Sesiwn holi ac ateb** | **Pob siaradwr** | **Prif Awditoriwm** |
| **4.20pm** | **Sylwadau i gloi** | **Kiri Pritchard-McLean** | **Prif Awditoriwm** |





## Michael Gray

(Cadeirydd CWMPAS )

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd

## Audrey Somerton-Edwards

(Cadeirydd CYSUR)

Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

---

## Tony Jenkyn



Tony yw cyfarwyddwr Jenkyn Prevent Consultancy and Training Ltd (JPCT), busnes sy'n arbenigo mewn polisi, hyfforddiant, ymchwil ac adolygiadau atal terfysgaeth. Fel Cyfarwyddwr, mae'n gweithio law yn llaw â'r Gr□p Diogelwch Cartref i ddarparu hyfforddiant i nifer o randdeiliaid allweddol ledled y DU a chynnal adolygiadau.  Mae Tony hefyd wedi gweithio'n rhyngwladol yn y Balcanau ac UDA i ddatblygu polisi Atal Terfysgaeth ar gyfer llywodraethau a darparu hyfforddiant. Mae gan Tony gefndir mewn Plismona Gwrthderfysgaeth ar ôl gweithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol am nifer o flynyddoedd. Ef yw awdur yr Adolygiad Dysgu Prevent a gyhoeddwyd yn dilyn y digwyddiadau a fu yn Southport ym mis Gorffennaf 2024.

---

## Catherine Evans



Mae Catherine yn raddedig o Brifysgol Rhydychen ac yn arweinydd strategol mewn trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus, ac mae ganddi yrfa sy'n cwmpasu llywodraeth leol, ymgynghoriaeth, a'r GIG. Ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu yn adran Gofal Cymdeithasol a Thai Cyngor Sir Caerfyrddin, ac yn arwain ar reoli rhaglenni, trawsnewid digidol, a gwella perfformiad. Mae hi'n angerddol am ddefnyddio data, technoleg a chydweithio i sbarduno canlyniadau gwell i bobl a gwasanaethau. Un o'i rhaglenni allweddol cyfredol yw Safeguarding Linc, menter ranbarthol gyffrous, sy'n anelu at wella trafodaethau diogelu trwy alluogi dulliau rhannu gwybodaeth yn ddiogel ar draws sefydliadau partner ac arloesedd digidol.

# Nick Andrews



Mae Nick yn Weithiwr Cymdeithasol Cofrestredig ac yn Swyddog Datblygu Ymchwil ac Ymarfer ym Mhrifysgol Abertawe, lle mae'n cydlynu'r rhaglen Datblygu Arfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP). Ffocws y gwaith hwn yw dull cyd-gynhyrchu o ddefnyddio mathau amrywiol o dystiolaeth mewn dysgu a datblygu gan ddefnyddio dulliau stori a deialog. Ar ôl treulio blynyddoedd lawer yn ymarfer ac yn cynllunio ym maes gwasanaethau gofal cymdeithasol, gall wneud cysylltiadau rhwng ymchwil, polisi ac ymarfer ac mae wedi datblygu rhwydwaith helaeth ledled Cymru a'r DU. Mae'n angerddol am gefnogi newid o ymarfer sy'n cael ei yrru gan brosesau i ymarfer sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd.

# Donna Sharland



Mae Donna yn arbenigwr niwroamrywiaeth a hi yw Rheolwr Gyfarwyddwr AutSiDe Education and Consultancy Ltd. Wedi'i lleoli yn ne Cymru, mae hi'n athrawes gymwysedig ac yn eiriolwr angerddol dros y gymuned niwroamrywiol, sy'n cael ei adlewyrchu yn ei gwaith proffesiynol a'i gwaith ymchwil. Fel rheolwr gyfarwyddwr, mae Donna Sharland yn rhedeg y cwmni arobryn hwn, sy'n darparu hyfforddiant, ymgynghoriaeth a chefnogaeth ar gyfer niwroamrywiaeth a chyflyrau cysylltiedig. Mae AutSiDe wedi'i arwain gan niwrowahaniaeth ac mae ei holl wasanaethau wedi'u llunio'n gynhenid gan safbwyntiau awtistig. Mae'r cwmni'n gweithio gyda theuluoedd a sefydliadau ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae Donna Sharland yn diwtor cysylltiol mewn troseddeg a phlismona ac mae hi'n gwasanaethu fel ymddiriedolwr ar gyfer canolfannau Autism Life, sef sefydliad di-elw sy'n cynnig gwasanaethau dydd arbenigol i oedolion a phobl ifanc awtistig ag anghenion iechyd cymhleth.

# Lisa Hammett & Anna Reis-Rogers

Mae gan Lisa ac Ana brofiad byw ac mae'r ddwy wedi colli anwylyd i hunanladdiad. Gan gydnabod pa mor agored i niwed yw'r bobl sydd wedi colli rhywun oherwydd hunanladdiad a'r anhawster o ddod o hyd i gefnogaeth yng ngorllewin Cymru, fe wnaethant gyd-sefydlu LiSS gyda Sian Retter. Grwp cymorth cyfoedion yw LiSS sydd wedi'i leoli yng Ngheredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, sy'n darparu gwasanaeth galw heibio lle y gall pobl rannu profiadau a chael gofal. Gyda'i gilydd, maent wedi derbyn nifer o wobrau, gan gynnwys Gwobr Gwirfoddoli yng Ngwobrau Iechyd a Gofal Gorllewin Cymru.

Maent wedi hyfforddi mewn amrywiol sefydliadau, fel SOBS, ASIST, Papyrus, Time for Change, Sandy Bear, a Jacob Abraham, i ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o hunanladdiad. Mae eu cyfranogiad yn cynnwys prosiectau fel hyfforddiant gyda Heddlu Dyfed-Powys a chreu adnoddau, gan gynnwys "Help wrth Law" a hyfforddiant atal hunanladdiad y GIG. Eu nod yw ymgysylltu â'r rhai sydd wedi colli rhywun oherwydd hunanladdiad a hwyluso sgyrsiau sy'n helpu i dorri'r stigma sy'n ymwneud â hunanladdiad ac iechyd meddwl. Gyda'u profiad personol a'u mewnwelediad arbenigol o gefnogi dros 70 o deuluoedd sydd wedi colli rhywun oherwydd hunanladdiad, bydd y sesiwn hon yn cefnogi trafodaeth ynghylch effaith a chost hunanladdiad i'r gymuned, i'r rhai sydd wedi colli rhywun, a'i nod yw creu mannau diogel a meithrin gwydnwch o fewn y gymuned. Hyfforddiant gyda Heddlu Dyfed-Powys a chreu adnoddau, gan gynnwys "Help wrth Law" a hyfforddiant atal hunanladdiad y GIG. Eu nod yw ymgysylltu â'r rhai sydd wedi colli rhywun oherwydd hunanladdiad a hwyluso sgyrsiau sy'n helpu i dorri'r stigma sy'n ymwneud â hunanladdiad ac iechyd meddwl. Gyda'u profiad personol a'u mewnwelediad arbenigol o gefnogi dros 70 o deuluoedd sydd wedi colli rhywun oherwydd hunanladdiad, bydd y sesiwn hon yn cefnogi trafodaeth ynghylch effaith a chost hunanladdiad i'r gymuned, i'r rhai sydd wedi colli rhywun, a'i nod yw creu mannau diogel a meithrin gwydnwch o fewn y gymuned.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

# WYTHNOS DIOGELU GENEDLAETHOL 2025

Cofiwch gwblhau'r ffurflen adborth.

## ARFERION CADARNHAOL WRTH DDIOGELU

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru • Mid and West Wales Safeguarding Board •

SGANIWCH Y COD QR

NEU GALLWCH GAEL GAFAEL AR Y FFURFLEN ADBORTH

YMA



Diolch am fynychu!

BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU